

Datganiad Cwebéc ar Gyfieithu Llenyddol a Chyfieithwyr

1. Sail y gelfyddyd o gyfieithu llenyddol yw angerdd. Drwy hyrwyddo gwerthoedd o fod yn agored, yn gweithredu dros heddwch a rhyddid yn erbyn pob anghyfiawnder, anoddefgarwch a sensoriaeth, mae cyfieithu yn wahoddiad i gynnal deialog â'r byd.
2. Nid yw pob diwylliant yn gyfartal pan ddaw'n fater o gyfieithu. Bydd rhai diwylliannau yn cyfieithu o ddewis, eraill o deimlad o reidrwydd. Cyfieithu yw'r allwedd i amddiffyn ieithoedd a diwylliannau.
3. Er parchu yr awduron a'r testunau gwreiddiol, bydd y cyfieithwyr hefyd yn greawdwyr. Ceisiant nid yn unig i atgynhyrchu gwaith llenyddol ond i symud y gwaith hwnnw yn ei flaen, i ehangu ei bresenoldeb yn y byd. Nid negeseuwyr yn unig mo cyfieithwyr: er iddynt siarad dros eraill, mae ganddynt eu lleisiau eu hunain hefyd. Yn benodol, gweithredant o blaid amrywiaeth diwylliannol gan gadw'n deyrngar i'r awduron ymyledig, arddulliau llenyddol a grwpiau cymdeithasol.
4. Rhaid amddiffyn hawliau'r cyfieithwyr. Rhaid i lywodraethau, cyhoeddwyr, y cyfryngau, cyflogwyr oll – barchu statws ac anghenion cyfieithwyr, rhoi amlygrwydd i'w henwau, a sicrhau tâl sy'n deg gydag amodau gweithiol sy'n rhoddi parch – ymhob dull o argraffu, a'r cyfryngau digidol.
5. Rhaid gwarantu diogelwch corfforol a rhyddid mynegiant cyfieithwyr bob amser.
6. Fel ysgrifenydd creadigol gyda gwybodaeth a sgiliau penodol, rhaid dangos parch tuag atynt ac ymgynghori â hwy ar y cwestiynau oll sy'n berthnasol i'w gwaith. Mae'r cyfieithiadau yn eiddo i'r sawl sydd wedi eu creu.

Cyfarfod TLRC, Barcelona, 23 Ebrill 2015 a basiwyd yn unfrydol yn y Gyngres Flynyddol yn Cwebéc, Hydref 15, 2015. Cyfieithwyd i'r Saesneg gan Sherry Simon ac i'r Gymraeg gan Menna Elfyn

Translated by Menna Elfyn, President of Wales PEN Cymru